

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Rhagfyr 2023

**Teitl:** Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

**Pwrpas yr adroddiad:** I'r Cyngor ystyried y gwelliant arfaethedig i Agenda'r Cyngor o 'Materion Personol' i 'Cyhoeddiadau'r Cadeirydd'

**Er:** Penderfyniad

## **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**

**Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth**

## **Cyflwyniad**

Yn ystod cyfarfod Arweinwyr Grŵp, cynigiwyd bod yr eitem 'Materion Personol' ar Agenda'r Cyngor yn cael ei newid i 'Gyhoeddiadau'r Cadeirydd'. Cafodd hyn ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod ei gyfarfod dyddiedig 09/06/2023 ac fe argymhellwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor. Fe'i hystyriwyd hefyd gan Weithgor y Cyfansoddiad yn ystod ei gyfarfod dyddiedig 26/09/2023.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adolygiad ymarfer Awdurdodau Lleol eraill, a chysondeb a phriodoldeb y materion a godwyd.

## **Adolygiad o ymarfer gan Awdurdodau Lleol eraill**

Cafodd adolygiad o arferion holl Awdurdod Lleol Cymru ei gynnal yn ystod mis Mai eleni. Roedd y sampl yn cynnwys un agenda Cyngor safonol fesul awdurdod lleol, a gyhoeddwyd ar y rhyngwrdd. Nodwyd nad oes unrhyw Awdurdod Lleol arall yn y sampl hon yn cynnwys 'Materion Personol' ar agenda'r Cyngor. Isod mae sampl o eitemau agenda amgen a nodir:

- a) Derbyd cyhoeddiadau gan y Cadeirydd, yr Arweinydd, Aelodau'r Cabinet neu'r Prif Weithredwr.
- b) I dderbyn cyhoeddiadau gan:
  - (i) Y Maer (neu'r Llywydd)
  - (ii) Aelodau'r Cabinet
  - (iii) Y Prif Weithredwr
- c) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd
- d) Adroddiadau gan y Cadeirydd
- e) Cyhoeddiadau / Materion Personol
  - (i) Y Llywydd
  - (ii) Y Cadeirydd / Dirprwy Lywydd
- f) Cyhoeddiadau gan yr Arweinydd neu'r Prif Weithredwr

## **Cysondeb a phriodoldeb materion a godir**

Nododd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd fod cryn dipyn o gyfarfod y Cyngor yn cael ei gymryd gan faterion personol, gyda'r mwyafrif o eitemau'n ymwneud â llongyfarchiadau a chydymdeimlad i drigolion fesul ward. Nodwyd bod anghysonderau sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â dymuniadau pen-blwydd a dymuno'n dda i staff ar eu hymddeoliad.

## **Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cyfeirio at gyhoeddiadau'r Cadeirydd fel a ganlyn:

### Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, 1.1 Amseru a Busnes

*Bydd y cyfarfod blynyddol yn:*

*1.1.6 derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd a/neu'r Prif Weithredwr*

### Cyfarfodydd cyffredin

*Bydd cyfarfodydd cyffredin yn:*

*2.4 derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Arweinydd a/neu Aelodau Cabinet*

Ystyriodd Aelodau'r Gweithgor Cyfansoddiad eiriad mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig yn ystod ei gyfarfod dyddiedig 26 Medi 2023 a daethant i'r casgliad nad oedd angen newid.

## **Cynnig**

Argymhellir felly bod eitem yr agenda Materion Personol yn cael ei disodli gan 'Gyhoeddiadau'r Cadeirydd' ar agendâu holl gyfarfodydd y Cyngor. Gofynnir i bob Aelod hysbysu'r Cadeirydd drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democraataidd perthnasol am unrhyw faterion y gallent fod am eu cyflwyno i'w hystyried gan y Cadeirydd. Bydd angen cyflwyno pob mater o leiaf 2 ddiwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod, a bydd y Cadeirydd yn ystyried y materion hyn i'w cynnwys mewn crynodeb o'r cyhoeddiadau hyn yn ystod cyfarfod y Cyngor.

Bydd gan y Cadeirydd y disgrisiwn terfynol wrth ystyried perthnasedd materion a gyflwynwyd, ac er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, dylai ddarparu canllaw i'r Aelodau. Gall eitemau ar gyfer Cyhoeddiadau'r Cadeirydd gynnwys:

- Llongyfarch unigolion a ddewiswyd i gynrychioli Cymru neu ennill cystadleuaeth Genedlaethol. Fodd bynnag, dylai aelodau geisio osgoi dyblygu gormodol, e.e. bob tro y dewisir unigolyn i'r tîm, fesul gêm;
- Materion personol yn ymwneud ag Aelodau, e.e. cydymdeimladau ar farwolaeth perthynas agos, i ddymuno gwellhad buan iddynt neu longyfarch ar briodas, neu enedigaeth plentyn neu wyres

Argymhellir bod cyhoeddiad y Cadeirydd yn osgoi unrhyw beth sy'n gysylltiedig â staff, ac eithrio llongyfarchiadau ar ennill gwobrau yn ymwneud â gwaith y Cyngor, neu gydymdeimladau â Phrif Swyddogion os yw aelod o staff wedi marw yn y swydd. Argymhellir hefyd bod y Cyhoeddiadau yn osgoi materion lleol fel llongyfarchiadau pen-blwydd, ennill cystadlaethau lleol, pasio arholiadau ac ati a fyddai'n fwy priodol i gael eu trin ar lefel Ward neu gan y Cyngor Tref / Cymuned perthnasol.

Cydnabyddir y gallai rhai materion godi ar y funud olaf ac efallai na fydd yn bosibl darparu 2 ddiwrnod gwaith clir ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon. Mewn

amgylchiadau o'r fath, cynigir bod yr Aelod yn hysbysu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd perthnasol cyn gynted â phosibl, cyn gynted â phosibl cyn dechrau'r cyfarfod, a fydd wedyn yn ei drafod gyda'r Cadeirydd.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Na, nid yw hwn yn newid polisi na strategaeth.

**Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** AMH

**Cydweithio:** AMH

**Cynnwys:** AMH

**Atal:** AMH

**Integreiddio:** AMH

**Argymhelliad / Argymhellion:**

**I'r Cyngor gymeradwyo'r gwelliant i Agenda'r Cyngor o 'Materion Personol' i 'Gyhoeddiadau'r Cadeirydd'**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**

**Sicrhau cysondeb a phriodoldeb materion a godwyd, a lleihau faint o amser a dreulir ar yr eitem hon**

**Trosolwg a Chraffu:** AMH

**Fframwaith Polisi:** Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:** AMH

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** AMH

**Goblygiadau cyfreithiol:** AMH

**Goblygiadau staffio:** AMH

**Goblygiadau eiddo / asedau:** AMH

**Risg(iau):** AMH

**Pwerau Statudol:** AMH

**Papurau Cefndir:** AMH

**Atodiadau:** AMH

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddog Adrodd:** Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:** 01/10/2023